



Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

03442 640 670

Rydym yn croesawu
galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

23 Awst 2019

Annwyl Vaughan,

Ymgynghoriad ar Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - cynllun cyflawni 2019 i 2022

Yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni 2019-2022.

Rwy'n poeni nad yw'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys unrhyw gamau penodol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cymorth iechyd meddwl i bobl hŷn, ac eithrio mewn perthynas â dementia. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* yn cynnwys nifer o faterion penodol yn ymwneud â phobl hŷn.

Cefais nifer o ymatebion i'm hymgyngoriad diweddar ar fy strategaeth tair blynedd a oedd yn tynnu sylw at yr anghyfartaledd o ran mynediad i bobl hŷn at driniaethau ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl yng Nghymru. Nododd yr ymatebwyr fod lefel anghymesur o isel o bobl hŷn yng Nghymru yn cael mynediad at driniaethau ar gyfer salwch meddwl a bod gweithwyr proffesiynol ddim bob amser yn cydnabod y cyflyrau hyn a'u trin yn briodol. Nodwyd hefyd nad oes digon o bobl hŷn yn rhoi gwybod am faterion iechyd meddwl, ac y gallai llawer o bobl hŷn fod yn byw gydag iselder, gorbryder a chyflyrau iechyd meddwl eraill nad ydynt yn cael eu cydnabod ac nad yw pobl hŷn yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt.¹

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hyn yn peri gofid arbennig i mi, ac rwy'n bwriadu cynnwys darn penodol o waith ar fynediad pobl hŷn at wasanaethau iechyd meddwl yn fy rhaglen waith 2020-21.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi roi rhagor o wybodaeth i mi ynghylch y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl penodol pobl hŷn.

*Yn gywir,
Helena Herklots*

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

¹ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2019) - Adroddiad ar Ymgynghoriad y Comisiynydd i Dair Prif Flaenoriaeth Tymor Hir;
<http://www.olderpeoplewales.com/wl/publications/strategy/consultation.aspx>